Taflenni Gwybodaeth
hafal@hafal.org
01792 816 600
www.hafal.org

Lwfans Byw i'r Anabl (LAB)

Nid yw hwn yn fudd-dal sy'n cymryd lle incwm fel y cymhorthdal incwm neu'r budd-dal analluogrwydd, ond mae yno i'ch helpu gyda'r costau ychwanegol a achosir gan eich anghenion gofal a symudedd. Ni fyddwch chi o reidrwydd felly yn ei golli os byddwch chi'n dychwelyd i weithio.

I gael y budd-dal yma, rhaid i chi fod wedi bod yn cael anawsterau ers o leiaf 3 mis a bod disgwyl iddynt barhau am o leiaf 6 mis arall. Gellir dyfarnu'r lwfans am gyfnodau cyfyngedig (lleiafswm o 6 mis) neu am gyfnod amhenodol. Mae'r LAB yn cynnwys dwy elfen, sef 'Gofal' a 'Symudedd', y gellir eu dyfarnu ar wahanol lefelau. Mae swm y budd-dal y byddwch chi'n ei gael yn dibynnu ar y lefel fydd yn cael ei osod ar eich cyfer ar gyfer y ddwy elfen.

Awgrym Hafal: Rhaid i chi fod dan 65 oed i hawlio LAB, ond unwaith y bydd yn cael ei ddyfarnu, gallwch barhau i'w dderbyn ar ôl i chi fod yn 65 oed.

Elfen Gofal
•Lefel uwch - anghenion gofal dwys ddydd A nos
•Lefel ganolig - anghenion gofal dwys ddydd NEU nos
•Lefel is - anghenion gofal llai difrifol neu annhebygol o allu coginio pryd bwyd

Ystyr gofal dwys, os oes gennych chi broblemau iechyd meddwl, yw eich bod angen goruchwyliaeth barhaol yn ystod y dydd neu oruchwyliaeth aml yn ystod y nos i wneud yn siwr nad ydych chi'n gwneud niwed i'ch hun neu i eraill.

Awgrym Hafal: Hyd yn oed os mai'r elfen gofal isaf yn unig y byddwch chi'n ei gael, mae hi werth gwneud cais, gan y bydd yn cynyddu eich hawl i fudd-daliadau amnewid incwm, e.e. cymhorthdal incwm, budd-dal analluogrwydd.

Elfen Symudedd
•Lefel uwch - nam meddyliol difrifol
•Lefel is - angen arweiniad, goruchwyliaeth neu sicrhad mewn amgylchiadau anghyfarwydd.

I gael eich dosbarthu fel rhywun â nam meddyliol difrifol, rhaid i chi fod â nam meddyliol difrifol A phroblemau ymddygiad difrifol A bod yn derbyn y lefel uchaf o'r elfen gofal.

Gellir gohirio'r elfen gofal ar ôl 28 diwrnod mewn ysbyty neu mewn llety a gynigir o arian cyhoeddus. Mae'r un yn berthnasol am yr elfen symudedd, ond nid yw hwn yn cael ei effeithio gan arhosiad mewn gofal preswyl.

Awgrymiad Hafal: Eich dewis chi yw sut i wario'r arian, nid oes rhaid i chi ei ddefnyddio i dalu rhywun i ddod i'ch cartref i'ch helpu.

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Canllawiau yn unig yw'r wybodaeth yn y daflen wybodaeth yma. Am gyngor manwl, cysylltwch â'ch swyddog Hawliau Lles lleol neu eich swyddfa Cyngor am Bopeth.